# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

Dydd Llun, 17 Rhagfyr 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
G. Thomas, S.M. Allen, K.V. Broom, I.W. Davies, K.Davies, W.T. Evans, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, E. Morgan, B.A.L. Roberts and E.M.J.G. Schiavone

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr J. Tremlett, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
A. Bracey, Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
R. Page, Senior Business Support Manager
S. Sauro, Rhelowr Perfformiad, Dadansoddi a Systemau
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Chamber, - County Hall, Carmarthen. SA31 1JP. - 2.00  - 3.10 pm**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr R. Evans, G. Jones a D. Williams.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.**

| Y Cynghorydd | Rhif(au) y Cofnod | Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd K. Lloyd | Cofnod Rhif 5 - Fersiwn Drafft o Gynllun Busnes yr Adran Cymunedau. | Ei nith yn gweithio yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol - gofal seibiant. |

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

**3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**4. YMGYNGHORI YNGHYLCH STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2019/20 TAN 2021/22.**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Strategaeth Cyllideb Refeniw 2018/20 – 2021/22, a oedd wedi cael ei hystyried gan y Bwrdd Gweithredol ar 19 Tachwedd, 2018. Nodwyd hefyd fod aelodau'r Pwyllgor wedi mynychu digwyddiadau ymgynghori ar

y gyllideb yn ddiweddar, a oedd yn rhoi cyfle iddynt ofyn cwestiynau a chael eglurhad ynghylch gwahanol agweddau ar y gyllideb.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r sefyllfa bresennol i'r Aelodau ynghylch y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2019/2020, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2021/22. Bydd yr effaith ar wariant adrannol yn dibynnu ar y setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru a'r gyllideb derfynol ganlyniadol a fabwysiedir gan y Cyngor Sir.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth gyllidebol fanwl ganlynol a oedd wedi'i hatodi i'r Strategaeth a oedd yn berthnasol i'w faes gorchwyl.

- Atodiad A - Strategaeth Cyllideb Gorfforaethol 2019/20 - 2021/22
- Atodiad A(i) – Crynodeb effeithlonrwydd ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Atodiad(ii) – Crynodeb o'r Pwysau Twf ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Atodiad B – Y rhannau o'r gyllideb sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Atodiad C – Crynhoad Taliadau ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol grynodeb o'r adroddiad. Roedd y pwyntiau allweddol dan sylw yn cynnwys:

- Cafodd y setliad amodol ei gyhoeddi ddydd Mawrth 9 Hydref 2018. Darparwyd ffigurau dangosol ar gyfer Awdurdodau Lleol unigol am un flwyddyn ariannol yn unig, sef 2019/20, ac nid oedd rhagor o wybodaeth am setliadau'r dyfodol.
- Mae prif bwyntiau Setliad Dros Dro 2019/2020 ledled Cymru fel a ganlyn:
    - Pennwyd cyllid refeniw Llywodraeth Leol o £4.214 biliwn ar gyfer 2019-20, sef gostyngiad o 0.3% (£12.3 miliwn) o gymharu â 2018-19
    - Dywedodd Llywodraeth Cymru fod £13.7 miliwn wedi cael ei gynnwys ar gyfer cost dyfarniad Cyflog yr Athrawon mis Medi 2018, fodd bynnag £8.1 miliwn yn unig sydd wedi'i ddarparu.
    - Cyfeiriwyd at y £7 miliwn o gyllid ychwanegol i fodloni costau Awdurdodau Lleol sy'n deillio o ddull Llywodraeth Cymru o ran prydau ysgol am ddim. O ran hyn, mae'n amlwg mae £4 miliwn yn unig sydd wedi cael ei ddarparu
- Ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, cafwyd gostyngiad o 0.5% (£1.343 miliwn) yn y setliad dros dro. Mae'r Cyllid Allanol Cyfun felly yn gostwng i £258,831k yn 2019/20.
- Gan roi sylw i gyfrifoldebau newydd a throsglwyddiadau, y gostyngiad ar gyfer Sir Gaerfyrddin yw 0.7% (£1.873m).
- Mae grant gwasanaethau cymdeithasol newydd gwerth £30 miliwn ledled Cymru ond ni wyddys manylion y grant hwn eto.
- Mae pwysau sylweddol ar fil cyflogau presennol y Cyngor oherwydd dyfarniad cyflog yr athrawon 2018 ac yn sgil rhoi colofn gyflogau y cytunwyd arni'n genedlaethol ar waith. Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn rhoi ystyriaeth i effaith y cynnydd mewn cyfraniadau cyflogwr o ran Pensiwn Athrawon, sef effaith blwyddyn lawn o oddeutu £4.5 miliwn.

- Mae cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod a glustnodwyd yn dirywio oherwydd y gostyngiad o ran y cymorth ar gyfer y rhaglen gyfalaf a gytunwyd gan y Cyngor.
- Mae'r Awdurdod yn cynnig cynnydd yn y Dreth Gyngor o 4.89% ar gyfer y 3 blynedd nesaf.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol y wybodaeth ddiweddaraf a dywedodd wrth y Pwyllgor fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi cyhoeddi pecyn cyllido ychwanegol o £13 miliwn ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw ledled Cymru a £7.5 miliwn yn ychwanegol ar gyfer Cyflog Athrawon ers dosbarthu'r agenda. Amcangyfrifwyd y byddai hyn yn rhoi £1.3 miliwn yn ychwanegol i'r Awdurdod. Y disgwyl oedd y byddai ffigwr y setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi ddydd Mercher yr wythnos hon.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Cyfeiriwyd at y cynlluniau effeithlonrwydd a mynegwyd pryder y gall arbedion effeithlonrwydd o ran rheoli effeithio ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gofynnwyd i'r swyddogion pa wasanaethau yr effeithir arnynt?

  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol na ddylai effeithio ar wasanaethau cwsmeriaid oherwydd byddai'r arbedion effeithlonrwydd yn effeithio yn bennaf ar swyddogaethau gweinyddol. Ychwanegodd nad oedd ganddo'r holl wybodaeth a byddai'n darparu ymateb llawn drwy e-bost ar ôl y cyfarfod.

- Mynegwyd pryderon ynghylch yr arian yr oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y byddai'r Awdurdod yn ei gael, ond ni lwyddwyd i gael y cyllid. Un enghraifft o hyn yw'r £20m a oedd wedi'i glustnodi'n benodol ar gyfer gofal cymdeithasol yn ôl pob tebyg.

  Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod proses ymgynghori ffurfiol â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cael ei chynnal a bod ymateb ar y cyd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'r ffigur yn ymwneud â'r asesiad gwariant safonol a'r gostyngiad o 0.5% mewn gwariant. Os ceir unrhyw ostyngiad, mae wedi'i gynnwys yn y 0.5% ac nid yw'n ychwanegol. Ychwanegodd fod grant penodol newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

- Gofynnwyd a oedd unrhyw fodd y gallai'r Pwyllgor gyfleu ei bryderon i Lywodraeth Cymru ynghylch yr arian a addawyd ond na ddarparwyd.

  Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor, o ran y broses ymgynghori, fod sylwadau wedi eu cyflwyno gan yr Awdurdod, bod yr Arweinydd wedi ysgrifennu atynt, a bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi ymateb i'r ymgynghoriad yn hyn o beth;

- Gofynnwyd cwestiwn ynghylch llwyddiant yr Awdurdod o ran ail-alluogi.

  Nodwyd bod cynnydd da yn cael ei wneud. Mae adolygiad o ofal canolraddol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd sy'n cynnwys ail-alluogi, ac yn dilyn cwblhau'r adolygiad gellid cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor i'w ystyried.

- Gofynnwyd felly am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran Gofal Iechyd Parhaus.

  Dywedodd Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu fod y maes hwn yn parhau i fod yn heriol ond bod cynnydd yn cael ei wneud. Bwriedir cynnal Uwch-gynhadledd gyda'r GIG yn y Flwyddyn Newydd. Bydd canlyniad yr Uwch-gynhadledd yn cael ei fwydo yn ôl i'r Pwyllgor.

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch Atodiad C yr adroddiad. Nodir bod y tâl a godir ar gleientiaid ar gyfer Gofal Seibiant yn 2019/20 ar gyfer cost lawn y lleoliad.

  Cadarnhawyd na fydd cyfraniad y cleient yn newid oherwydd y mae hwn wedi'i gapio gan Lywodraeth Cymru ar £80 yr wythnos ar hyn o bryd, a disgwylir y bydd hwn yn cynyddu i £90 yr wythnos y flwyddyn nesaf.

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y gwariant ar TG a'r hyn yr oedd yn ei gynnwys.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod hyn yn ymwneud â defnydd yr adran o TG, a'i fod yn cynnwys prynu offer newydd, gan gynnwys ffonau ar gyfer gweithwyr gofal. Hefyd, mae cost sy'n ymwneud â chyflwyno meddalwedd CM2000 a fydd yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy gynlluniau rhestri gwaith gwell.

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch yr hyn y mae "Arall" yn cyfeirio ato yn y tabl cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol nad oedd ganddo'r wybodaeth wrth law ond y byddai'n gallu darparu'r manylion yn dilyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**4.1 Bod yr Ymgynghoriad ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2019/20 – 2021/22 yn cael ei dderbyn;**
**4.2 Bod y Crynhoad Taliadau ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, fel y manylir yn Atodiad C i'r adroddiad, yn cael ei dderbyn.**

**5. CYNLLUN BUSNES DRAFFT ADRAN CYMUNEDAU 2019/20 - 2022.**

(NODER: ROEDD Y CYNGHORYDD K. LLOYD WEDI DATGAN BUDDIANT YN YR EITEM HON YN GYNHARACH.]

Ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Busnes Drafft 2019/20 – 2022 yr Adran Cymunedau mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny sydd o fewn ei faes gorchwyl:

- Gwasanaethau Gofal a Chymorth
- Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Diogelu
- Gwasanaethau Integredig
- Gwasanaethau Comisiynu.

Nodwyd y byddai rhagor o waith yn cael ei wneud ar y drafft ar ôl i aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd Gweithredol gynnig sylwadau ac ymgysylltu. Hefyd, roedd adborth gan grwpiau o staff hyd yn hyn wedi nodi y byddai mwy o bwyslais ar gamau gweithredu integredig o ran llesiant drwy gynlluniau is-adrannol yn cael ei groesawu ynghyd â sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau drwy ddulliau gwahanol yn wyneb y galw cynyddol.

Rhoddwyd sylw i'r materion/cwestiynau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch pam y mae'r broses o drosglwyddo Gwasanaethau Allied Healthcare i'n gofal cartref mewnol wedi'i nodi dan Flaenoriaethau Gwasanaeth gyda'r dyddiad Mawrth 2020. Rhagdybiwyd bod y broses drosglwyddo wedi'i chwblhau.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor na fydd Allied Healthcare yn cael ei integreiddio'n llawn tan fis Ebrill 2019, sef y rheswm dros ei gynnwys yn y Blaenoriaethau Gwasanaeth.

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y dyddiadau ar gyfer datblygu'r Pentref Llesiant newydd yn Llanelli. Nodir mis Mawrth 2022 ar hyn o bryd.

  Gan fod agwedd hamdden yr adroddiad o fewn cylch gwaith y Pennaeth Hamdden, cytunodd y Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu i gyflwyno'r cwestiwn hwn i'r Pennaeth Hamdden gan ofyn iddo roi ymateb i'r Pwyllgor.

- Mynegwyd pryderon ynghylch y prinder cartrefi yn y Sir ar gyfer pobl hŷn, ac ymddengys bod y cynllun presennol ar gyfer tai fforddiadwy yn seiliedig ar ddata hanesyddol o arolwg anghenion tai a gynhaliwyd yn 2008.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Cynllun Tai Fforddiadwy yn ymdrin â'r angen am gartrefi ar gyfer pobl hŷn a'r defnydd o addasiadau a thechnoleg. Dywedodd y Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu hefyd fod Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru wedi cynnal archwiliad yn ddiweddar a bydd y data yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Cynllun Busnes yr Adran Cymunedau ar gyfer 2019/20 - 2022 yn cael ei dderbyn.**

## 6. GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A DEDDF (CYMRU) LLES 2014 - POLISI A DIWYGIADAU GWEITHDREFN I GODI TÂL AM WASANAETHAU I OEDOLION.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Diwygiadau Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Codi Tâl ar Oedolion am Wasanaethau.

Mae'r adroddiad yn nodi'r polisi diwygiedig, gan gyfuno'r polisïau blaenorol a'r polisi interim y cytunwyd arno yn 2016.

Crynodeb o bwyntiau'r polisi.

- Mae Lwfans Personol wedi'i ailenwi yn Isafswm Incwm a fydd yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru. Mae 2018-19 wedi'i bennu yn £28.50 yr wythnos (Diwygir hyn bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru)
- Mae Taliadau Dibreswyl yn berthnasol o ddiwrnod cyntaf y gwasanaeth.
- Ni chodir tâl ar bobl ag anghenion gofal a chymorth sydd wedi cael diagnosis o CJD, ar gyfer gwasanaethau cartref neu wasanaethau amhreswyl.
- Gall yr awdurdod lleol bellach godi llog ar daliadau gohiriedig o ddyddiad y cytundeb.
- Codir tâl ar breswylwyr tymor byr mewn cartref gofal bellach fel pe baent yn derbyn gwasanaethau amhreswyl.
- Bydd rheolau o ran dewis o lety yn berthnasol i leoliadau "Dros dro / Parhaol" mewn cartref gofal, ond ni fydd yn berthnasol i leoliadau "Tymor byr".
- Newidiwyd enw Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol i "Gostau Ychwanegol" a bydd yn dal yn berthnasol, ond bydd bellach yn cael eu cyfrifo gan ystyried cost uchaf y 2 gartref sydd ar gael, ac nid y pwynt canol yn unol â Pholisi Interim 2016.

Rhoddwyd sylw i'r materion/cwestiynau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch codi tâl am ofal seibiant.

  Dywedodd yr Uwch-reolwr Busnes fod trefniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith yn dilyn asesiad gan Weithiwr Cymdeithasol. Pan ystyrir bod angen lleoliad ar berson am lai nag 8 wythnos, bydd y lleoliad hwnnw yn cael ei ystyried dan reolau amhreswyl. Gall person gael seibiannau lluosog o fewn unrhyw gyfnod sy'n cael ei ystyried yn dymor byr ac sydd, gyda'i gilydd, dros 8 wythnos.

  Mae'r gost fesul noson ar gyfer lleoliadau tymor byr yn seiliedig ar gost lawn y lleoliad.

- Gofynnwyd a yw'r gost ar gyfer gofal seibiant yn seiliedig ar brawf modd.

  Dywedodd yr Uwch-reolwr Busnes, pan fo person yn cael prawf modd, mae'r swm a godir wedi'i gapio – £80 yr wythnos ar hyn o bryd.

- Gofynnwyd am ragor o wybodaeth am daliadau gohiriedig.

  Cadarnhaodd yr Uwch-reolwr Busnes, pan gytunir ar daliad gohiredig, bydd yn galluogi pobl i ohirio talu am rywfwaint neu'r holl gostau gofal er mwyn sicrhau nad oes angen iddynt werthu eu heiddo pan fyddant yn mynd i gartref gofal. Bydd yr Awdurdod yn ceisio cael blaenoriaeth arwystl dros yr eiddo, fodd bynnag mewn rhai amgylchiadau bydd yn ail arwystl. Mae gan yr Awdurdod yr hawl i dynnu'r gwasanaethau yn ôl os nad yw person wedi talu ei ffioedd. Dywedwyd nad yw Caerfyrddin wedi tynnu gwasanaeth eto. Yn hytrach, byddai'r awdurdod yn ceisio cael taliad gan yr ystad.

- Cyfeiriwyd at bwynt 1 ar dudalen 120 lle nodir "Hours Commissioned per Week (No Visits)" yn y Saesneg, a dywedwyd wrth y Pwyllgor y dylai hyn ddarllen (No of Visits) a byddai'n cael ei ddiwygio yn unol â hynny.

**PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R BWRDD GWEITHREDOL fod y Diwygiadau Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Codi Tâl ar Oedolion am Wasanaethau yn cael eu cymeradwyo.**

## 7. DIWEDDARAF AM WEITHREDIADAU AC ATGYFEIRIADAU'R PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad diweddaru a fanylai ar y cynnydd o ran y camau gweithredu, y ceisiadau a'r atgyfeiriadau oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 8. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU.

Eglurwyd i'r Pwyllgor pam na chyflwynwyd yr adroddiad craffu canlynol a oedd i fod i gael ei ystyried yn y cyfarfod heddiw :-

- Y wybodaeth ddiweddaraf am weithio mewn partneriaeth a gweithio'n rhanbarthol

**PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.**

## 9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried rhestr o'r eitemau sydd i ddod a chytunwyd y dylid cyflwyno'r eitemau yn y cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD cytuno ar y rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ddydd Mercher 23 Ionawr 2019.**

## 10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 22AIN O DACHWEDD.

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2018, gan eu bod yn gywir.**

_________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**